

Mae isio gras!

Fe syrth y goeden, pan gaiff ei thorri, i gyfeiriad ei gogwydd. A phan syrth cymdeithas fe syrth i gyfeiriad ei gogwydd. Dyna duedd y goeden a'r galon ddydol fel ei gilydd. Ac y mae tuedd andwyol yn arwain i gyfeiriad a chanlyniadau penodol. Gras Duw yw'r gallu hwnnw sy'n trawsnewid gogwydd calon, yn cyfeirio ei thueddiadau i gyfeiriad gwahanol, iachusol.

Bob wythnos yn ein hoedfaon cyfeiriwn at "ras ein Harglwydd Iesu Grist..."

Ac eto, os gofynnwn wrth ein cynulleidfaoedd, "Beth yw gras?" atebion reit annelwig a gawn. O bwyso am ateb fe glywn gynigion tebyg i hyn.

"Byddai mam erystalwm yn dweud wrthyf, 'Mae isio gras.' A'r argraff ges i o hynny yw mai fath o amynedd ydy gras."

Ond o'r sylweddoliad, y tu hwnt i "rhyfedd amynedd Duw, ddisgwyliodd wrthym cyd" bod rhywbeth mwy rhyfeddol nag amynedd yn bodoli, daw dechreuadau'n dealltwriaeth o ymwneud Duw ei hun â ni yng Nghrist, yn destun ein profiad a'n mawl.

"Gras ein Harglwydd Iesu Grist..." yw'r gallu mwyaf tyner, y grym mwyaf enillgar, pŵer y gobaith mwyaf cyson i bobl, i'r byd, i chi, i fi. Gras sy'n newid gogwydd ein calon. Nid yn ôl ein pechodau y gwnaeth efe â ni.

Gras – "Rhodd anhaeddiannol Duw."
Diffiniad hawdd ei gofio.

Beth yw gras? "Rhodd anhaeddiannol Duw."

Dim ond allwedd yn y clo yw'r diffiniad i ddealltwriaeth chwyldroadol, i sibrydiad dwyfol sy'n denu'n serch.

Gras yw rhodd... anhaeddiannol... Duw... i'r byd...yn Iesu Grist.

Mae'n rhyfeddol bod Duw'r nefoedd wedi dod i chwilio ac i gadw'r hyn oedd ar goll, y drull golledig, y ddafad goll, y mab afradlon. Gras yw bod Arglwydd y gogoniant, yr harddaf, y mwyaf sanctaidd, a'r unig Un Cyfiawn wedi dewis gweithredu tuag at fyd fel hwn mewn gras.

Byd heb haeddiant. Byd heb hawl ar ei amynedd. Byd sy'n gwadu ei hawl arnom.

Byd sy'n gwrthod ei ffyrdd. Byd sy'n "lladd Duw" bob dydd gyda chyllyll minig ei ddfaterwch lloerig. Byd o greulondeb. Byd o gelwydd. Byd o ddialedd.

Byd di-drugaredd. Byd anhrugarog. Byd haeddiant.

Byd di-ras. Byd cosb pan fydd methiant. Byd sydd am gondemnio unrhyw lithriad gan eraill pan gânt eu dal mewn rhyw drosedd. Byd anghyson ei gyfiawnder. Byd sy'n ofni wynebu'r gwir amdano'i hun.



Ac eto, calon a chanol neges y ffydd a draddodwyd i'r saint yw bod "gras ein Harglwydd Iesu Grist..." wedi ymweld â ni.

Mor dyner, mor dirion, mor ostyngedig.

Mor drugarog, mor urddasol, mor faddeugar.

Fe ddaeth yr Arglwydd Iesu Grist atom.

Ef yw'r Gair y daeth y cyfanfyd i fod drwyddo, yr hwn sy'n cynnal popeth a'i air nerthol o hyd, am fod ei greadigaeth a'i greaduriaid, yn parhau i fod yn wrthrych ei serch.

"Canys felly y carodd..." yw ein rhyfeddod, ein cysur, ein cân.

Do fe ddaeth y Gair "gras" yn gnawd. Ni ddaeth atom mewn syniadau clyfar er mwyn i'r clyfar gael eu hystyried a'u trafod a'u derbyn os oeddent yn dderbyniol gan ffasiwn eu hoed.

Ni ddaeth atom mewn athrawiaeth fel y medrem ddadansoddi a'i osod o fewn i flwch ein dychymyg pitw ni.

Ni ddaeth atom i'n palasau crand er mwyn i'r cyfoethogion ei feddiannu a'i gadw i noddi eu disgwyliadau cymdeithasol hwy.

Ac ni ddaeth gras er mwyn i unrhyw athroniaeth wleidyddol benodol ei blygu, ei ddoifi, na'i gymhwyso i'w dibenion gwleidyddol ein hunain. Mae gras yn herio ac yn fwy na phob un dim.

Daeth y gair yn gnawd. Daeth yn ddydol. Daeth yn berson byw. Daeth i fro arbennig, i fyd arbennig, i gnawd arbennig, i wlad arbennig, i oes arbennig.

Daeth y Gair yn gnawd a byw dros dro yn ein mysg. Daeth yn llawn "gras a gwirionedd." Daeth yn "ddyn i gydymdeimlo â'n holl wendidau i gyd." Daeth "yn Dduw i gario'r orsedd ar ddiabol cnawd a byd."

Gras. Rhodd anhaeddiannol Duw – mewn cnawd. A'r gras hwnnw a "dorodd holl argaeau'r nefoedd" a "chusanu euog fyd."

A'r gwaethaf peth am ras yw na allwn ei osod o dan ficrosgop i'w ddadansoddi, ei fesur, ei gloriannu. Gweld mewn drych, gweld trwy ddameg yr ydym a phob dameg yn ogoneddus, a phob dameg yn annigonol.

Adroddodd Tony Campolo'r hanes hwn er mwyn darlunio elfen o hanod gras.

Wrth deithio mewn awyren yn yr Amerig gwelodd ferch fach yn teithio gyda'i mam. Roedd y fechan yn anesmwyth, yn gyffrous am ei bod yn cael mynd adre ac wedi hurtio wrth feddwl y cai gweld ei thad ar ôl rhai dyddiau gyda nain a taid. Trodd y cyffro'n ormod iddi ddygymod ag ef. Ac o'i genau daeth ffrwd drevllyd a orchuddiodd ei gwisg ac a rwbwyd i'w gwallt. Nid tywysoges hardd gamodd oddi ar yr awyren.

Ond pan welodd ei thad hi, nid edrychodd ar y cyflwr chwydlyd. Y cyfan a'i gwnaeth oedd ei chipio yn ei freichiau a'i chofleidio.

Gras.

Gras heb haeddiant. Gras a chariad yn cusanu euog fyd.

Dyma'r Gras a'n carodd – heb haeddiant. Y Gras a'n ceisiodd- heb haeddiant. Y Gras – a'n cofleidiodd heb harddwch cychwynnol i ddenu ei serch.

Diolch iddo!